# PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL.

Dydd Mawrth, 11 Mehefin 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.A.L. Evans (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
H.A.L. Evans and G. Davies

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
A. Evans, Rheolwr Gweithrediadau - Cludiant Teithwyr
L. McFarlane, Swyddog Polisi a Datblygu Teithio Dysgwyr
T. Pilarz, Cyfreithiwr Cynorthwyol
S. Williams, Uwch Swyddog Trefniant Ysgolion
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Pwyllgor 2, - 3 Heol Spilman, Caerfyrddin. SA31 1LE. - 10.00 - 10.10 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd P. Edwards ac S. Phillips, ar y sail eu bod wedi hysbysu'r awdurdod yn flaenorol o fuddiant yng nghofnod 5 gan eu bod ill dau yn adnabod yr apelydd.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. COFNODION

### 3.1. 10ED MAI 2019 (10.15 Y.B.)

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mai 2019 (10.15 a.m.) gan eu bod yn gywir.**

### 3.2. 10FED MAI 2019 (10.30 Y.B.)

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mai 2019 (10.15 a.m.) gan eu bod yn gywir.**

## 4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 5. I YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD DJT & DJT YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL.

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol. Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol oedd yn ymwneud â'r ymgeisydd megis cyfeiriad ac o bosibl gwybodaeth a allai ddatgelu pwy oedd y teulu. Byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, ond ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd na'i deulu.

Croesawodd y Cadeirydd swyddogion o wasanaethau'r Gyfraith, yr Amgylchedd ac Addysg a Gwasanaethau Plant i'r cyfarfod. Bu'r Pwyllgor yn ystyried sylwadau ysgrifenedig yr apelydd mewn perthynas â phenderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod darparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer D.J.T a D.J.T gan nad yr ysgol honno oedd yr un agosaf nac ychwaith ysgol ddynodedig yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer cyfeiriad y cartref, ac nad oedd felly'n cydymffurfio â'r meini prawf ym mholisi'r Cyngor ar gyfer rhoi cymorth.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i sylwadau'r swyddogion adrannol, ynghyd ag amgylchiadau unigol yr achos.

**PENDERFYNWYD, yn unol â Pholisi'r Awdurdod ar gyfer Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, wrthod yr apêl oherwydd nad oedd D.J.T. a D.J.T. yn mynychu'r ysgol agosaf na'r un ddynodedig gan yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer y cyfeiriad cartref, a hynny oherwydd dewis y rhieni.**

________________________ ________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**